Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Dolau**
**Heol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Llanharan**
**Pont-y-clun**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF72 9RP**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/09/2015**

## Cyd-destun

Ysgol ddwyieithog ym mhentref Llanharan, yn Rhondda Cynon Taf, yw Ysgol Gynradd y Dolau. Ar hyn o bryd, mae 468 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed yn mynychu'r ysgol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 66 o ddisgyblion sy'n mynychu'r meithrin. Mae 17 o ddosbarthiadau ac mae pob dosbarth heblaw un ohonynt yn ddosbarthiadau un oedran.

Daw pob un o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg lle mae disgyblion o'r naill adran a'r llall yn integreiddio'n rheolaidd. Er bod tua hanner disgyblion yr ysgol y mynychu'r adran Gymraeg, ychydig iawn ohonynt yn unig sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref. Daw tua 2% o ddisgyblion yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae tua 21% o'r disgyblion wedi'u cofrestru yn ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan un deg pedwar a hanner y cant (14%) o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef tua 26%.

Penodwyd y pennaeth presennol ym 1997 ac roedd yn ei swydd pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd y Dolau yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,779 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £5,513 a'r isafswm yw £2,514. Mae Ysgol Gynradd Dolau yn safle 101 allan o'r 110 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n gydwybodol ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus sy'n gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn
- Mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn dda
- Mae disgyblion yn sgwrsio â'i gilydd yn naturiol yn Gymraeg; mae'r cymorth y mae disgyblion o'r adran Gymraeg yn ei roi i'w cyfoedion yn yr adran Saesneg i'w helpu i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol yn gryfder arbennig yn yr ysgol
- Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda
- Mae bron pob disgybl yn dangos pryder a pharch at ei gilydd ac yn dangos balchder eithriadol mewn gofalu am y rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain
- Mae staff yn cydweithio i sicrhau bod yr addysgu'n gyson dda ar draws y ddwy adran, lle mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu
- Mae ansawdd asesu ac olrhain disgyblion yn hynod effeithiol
- Mae staff yn nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar ac yn rhoi cymorth targedig iddynt fel eu bod yn gwneud cynnydd da
- Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol yn rhagorol ac mae staff yn ei ddefnyddio'n helaeth i roi cyfleoedd cynaledig o ansawdd uchel i ddisgyblion er mwyn i'r dysgu fod yn ddeniadol a chyffrous iddynt

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae disgwyliadau uchel y pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir sy'n cynorthwyo staff yn dda o ran bodloni'r targedau uchelgeisiol a osodir ganddo
- Mae strwythur arwain cadarn yr ysgol yn sicrhau bod aelodau'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cyfrannu'n effeithiol at weledigaeth ar y cyd yr ysgol
- Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau gonest a thrylwyr ar gyfer hunanarfarnu sy'n sicrhau gwelliannau parhaus mewn safonau, lles disgyblion, ac yn eu presenoldeb
- Mae'r corff llywodraethol yn wybodus iawn am berfformiad disgyblion ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gefnogi a herio'r ysgol
- Mae dadansoddiad cynhwysfawr yr ysgol o ddata i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn fanwl iawn, ac mae systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn nodwedd gref
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol â ffocws clir sy'n cynnwys

targedau heriol ar gyfer gwella, yn ogystal â meini prawf llwyddiant sy'n cael eu monitro'n agos

- Mae staff yn ymgysylltu'n dda â rhieni a phartneriaid eraill i sicrhau eu cefnogaeth

- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi datblygiad emosiynol ac addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau cysondeb mewn marcio fel bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gynradd Sirol y Dolau yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr cydwybodol, hyderus ac annibynnol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ystod gynhwysfawr o ddealltwriaeth a gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cyson, yn cymhwyso eu medrau allweddol yn briodol, ac yn gweithio i'w llawn botensial.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr adran Gymraeg a'r adran Saesneg yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n gyson at drafodaethau grŵp a dosbarth, ac yn gwneud arsylwadau sy'n cysylltu'n agos â sylwadau a wnaed gan ddisgyblion eraill. Maent yn siarad yn agored ac yn synhwyrol am eu gwaith ac yn cyfeirio'n frwdfrydig at ddysgu a syniadau blaenorol, er enghraifft wrth siarad am nodweddion pryfed cop. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth dda o'r gynulleidfa ac maent yn defnyddio geirfa briodol a chynyddol gymhleth yn effeithiol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu, ac maent yn defnyddio atalnodi'n gywir. Defnyddiant ystod addas o eirfa a chysyllteiriau, ac erbyn diwedd blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu disgrifiadau diddorol a chreadigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau estynedig o waith yn hyderus ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Mae ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r darllenydd yn datblygu'n briodol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn y ddwy adran yn darllen yn hyderus gyda mynegiant priodol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol o ganllaw ffoneg yr ysgol ei hun i gyfuno seiniau'n hyderus i wneud synnwyr o eiriau anghyfarwydd a newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen ar lefel uwch yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth allweddol yn gyflym o wahanol ffynonellau, fel cyfeirlyfrau a gwefannau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu profiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr adran Gymraeg yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu medrau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ar draws gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr adran Saesneg yn gwneud cynnydd effeithiol hefyd yn eu gallu i gymhwyso'u medrau llythrennedd yn briodol ar draws y rhan fwyaf o bynciau. Mae cynllun llythrennedd yr ysgol yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu dealltwriaeth briodol o arddulliau a *genres* ysgrifennu. Gall lleiafrif o ddisgyblion wneud dewisiadau gwybodus ynghylch pa rai i'w defnyddio wrth ysgrifennu at ddibenion penodol ac ar gyfer cynulleidfaoedd penodol. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn ysgrifennu darnau o waith estynedig a chreadigol yn ddigon rheolaidd ar draws gwahanol feysydd o'r cwricwlwm.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau defnyddio llyfrau Cymraeg a Saesneg, a gwnânt gynnydd da yn eu darllen o oedran cynnar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn rhugl gyda mynegiant ac yn siarad yn frwdfrydig am eu hoff awduron a llyfrau. Mae llawer ohonynt yn darllen er pleser ac yn defnyddio ystod dda o fedrau darllen yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth o gyfeirlyfrau a gwefannau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn crynhoi'r prif bwyntiau'n dda, gan ddefnyddio casgliadau lle bo'n briodol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safon medrau llafaredd llawer o ddisgyblion mewn Cymraeg a Saesneg yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn esbonio'n fanwl beth maent yn ei wneud a pham. Maent yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau grŵp trwy ystyried yn ofalus sut a phryd i ymateb i bobl eraill.

Ychydig iawn o wybodaeth am y Gymraeg, os o gwbl, sydd gan bron bob disgybl sy'n mynychu'r adran Saesneg pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Fodd bynnag, o oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da iawn o ran dysgu'r iaith a dangosant agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn cynnal y cynnydd hwn trwy gydol cyfnod allweddol 2, ac mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau at ystod eang o ddibenion. Maent yn cymryd rhan mewn sgyrsiau digymell gyda staff hefyd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr adran Gymraeg yn siarad yn frwdfrydig ac yn hyderus yn Gymraeg. Maent yn sgwrsio'n naturiol â'i gilydd yn ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, er enghraifft yn ystod chwarae ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae llawer o ddisgyblion yn yr adran Gymraeg yn cefnogi ac yn helpu i ddatblygu medrau Cymraeg eu ffrindiau yn yr adran Saesneg. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn meddu ar ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg ac maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus a chyson ar draws pob maes dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif da, a defnyddiant restrau, tablau a diagramau syml i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth yn gywir. Mae llawer ohonynt yn deall mesuriadau syml ac mae ganddynt wybodaeth dda am siâp.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni'n dda yn ystod gwersi mathemateg. Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Gallant ddatblygu eu strategaethau eu hunain ar gyfer datrys problemau wrth ymgymryd â thasgau ymchwiliol. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, tua hanner o'r disgyblion yn unig sy'n cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd mewn gwahanol bynciau.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig 5 ym mhob maes dysgu yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg wedi bod yn gyson uwch na meysydd dysgu eraill. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 ym mhob maes dysgu yn amrywio rhwng y 50% uwch ac is o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is, ac mae perfformiad mewn Saesneg yn amrywio rhwng y 50% uwch ac is. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 dros yr un cyfnod yn amrywio hefyd, ac mae Cymraeg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% is. Mae cyrhaeddiad mewn Saesneg a mathemateg yn amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf.

Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched. Dros gyfnod, mae cyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda â disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff neu'u ffrindiau am gymorth neu gefnogaeth unrhyw bryd. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth drylwyr o'r angen i fyw yn iach. Maent yn frwdfrydig ac yn manteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynnwys ymarfer corff trwy ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir iawn o'r angen i fwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn hyrwyddo hyn yn llwyddiannus trwy drefnu sesiynau rheolaidd i flasu ffrwythau yn y siop bwyd iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ystafell ddosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Dangosant foesau cynnes a chyfeillgar tuag at oedolion ac at ei gilydd. Mae disgyblion hŷn yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft fel llysgenhadon chwaraeon a chyfeillion maes chwarae. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u gallu i gyfryngu'n llwyddiannus trwy helpu ei gilydd i lunio casgliadau cytûn yn dilyn unrhyw fân anghydfod. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Gwnânt ddewisiadau gwybodus yn ystod tasgau ac maent yn gweithio'n dda yn annibynnol a gyda disgyblion eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd yr ysgol trwy eu rhan yng nghyngor yr ysgol, y pwyllgor eco, a'r cyngor chwaraeon. Maent yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ffurfiol gydag uwch dîm rheoli'r ysgol ac maent wedi cael trafodaethau llwyddiannus am brynu offer chwaraeon a chwarae. Maent yn teimlo cysylltiad cryf â'r gymuned leol ac ehangach ac yn mwynhau ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn. Mae dylunio a chreu'r ardd synhwyraidd sefydledig yn enghraifft wych o gydweithio rhwng disgyblion a'r gymuned leol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos pryder a pharch at ei gilydd. Maent yn ymfalchïo mewn gofalu am y rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain trwy gefnogi sawl elusen leol a chenedlaethol bob blwyddyn. Dangosant y gofal hwn trwy ofalu am fywyd gwyllt fel ieir a'r digonedd o ffrwythau a llysiau helaeth sy'n tyfu yng ngerddi'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r strategaethau niferus y mae'r ysgol wedi eu rhoi ar waith i wella presenoldeb. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb

yr ysgol wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r gyfradd presenoldeb nas gwiriwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn dangos gwelliant parhaus, a thua 95.6% yw'r gyfradd presenoldeb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau presenoldeb ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni gofynion statudol. Mae athrawon wedi adolygu ac addasu eu cynllunio tymor hir yn ddiweddar i ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn raddol o fewn ystod o feysydd cwricwlaidd. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws meysydd eraill wedi'u cynllunio cystal, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae profiadau trefnus iawn ac ysgogol yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol, ac maent yn hyrwyddo dysgu annibynnol yn llwyddiannus, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynllunio rhaglenni ymyrraeth hynod effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion unigol yn dda. Mae athrawon a staff cymorth sy'n gweithio gyda disgyblion y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt, yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd sylweddol.

Mae pob aelod o staff yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol y dydd yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. Mae athrawon yn yr adran Saesneg yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion adeiladu'n effeithiol ar brofiadau blaenorol. Mae staff yn yr adran Gymraeg yn cynllunio gweithgareddau sy'n sicrhau datblygiad cadarn a pharhad y Gymraeg sy'n llwyddo i gynhyrchu disgyblion dwyieithog cymwys a hyderus erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Ceir darpariaeth dda i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant, treftadaeth a hanes Cymru. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr â diddanwyr amlwg o Gymru, astudio arlunwyr o Gymru a chymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd hynod ddifyr ar gyfer disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol a gwneud defnydd effeithiol a chynaledig o'r amgylchedd dysgu y tu allan. Mae'r pwyllgor eco yn cefnogi hyn yn dda ac yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion amgylchedd lleol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i bron bob disgybl ddatblygu ymwybyddiaeth addas o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Maent yn gwerthfawrogi ac yn deall yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n byw mewn amgylchiadau anodd trwy astudio gwledydd eraill fel Brasil ac Wganda.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau diddorol sy'n annog a chymell disgyblion i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae gan bron bob un o'r athrawon

wybodaeth bynciol dda a chyfoes a defnyddiant holi medrus i ddatblygu medrau deall a meddwl disgyblion yn dda. Defnyddiant amrywiaeth eang o adnoddau, a gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o'r amgylchedd awyr agored i wella profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi diddorol sy'n annog disgyblion i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn bwrpasol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, mae llai o gyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn llawn ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae gan bob un o'r athrawon amcanion dysgu clir ar gyfer eu gwersi, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhannu'r rhain yn rheolaidd â disgyblion i ddarparu diben clir i'r dysgu sy'n digwydd. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn gwella dysgu disgyblion ar gyflymdra priodol ac yn gosod heriau sy'n symbylu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cymryd rhan mewn gwersi'n rheolaidd, maent yn gwybod pryd i ymyrryd, ac yn rhoi cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn ymgymryd ag ystod effeithiol o weithdrefnau asesu perthnasol sy'n darparu proffil cywir o alluoedd pob disgybl. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lywio cynllunio yn y dyfodol a nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, ac mae hyn yn hyrwyddo dysgu annibynnol yn dda. Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Fodd bynnag, pan fydd athrawon yn marcio gwaith a wnaed gan ddisgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2, mae sylwadau'n aml yn rhy ganmoliaethus. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ansicr ynghylch beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae adroddiadau blynyddol yr ysgol i rieni yn fanwl, yn bersonol i bob disgybl ac yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plentyn.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol trwy ystod o fentrau o ansawdd uchel. Rhoddir cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol trwy wersi addysg gorfforol sy'n cael eu trefnu'n ofalus a gweithgareddau allgyrsiol rheolaidd fel pêl-droed, pêl-rwyd, garddio a'r celfyddydau creadigol.

Mae'r ysgol yn llwyddo i annog disgyblion i ddatblygu synnwyr ar y cyd o werthoedd, sy'n cynnwys parch at bobl eraill, cyfeillgarwch a gonestrwydd. Mae aelodau o staff yn cyflwyno'r rhain yn sensitif mewn gwasanaethau ac yn eu hatgyfnerthu'n rheolaidd yn y dosbarth, o gwmpas yr ysgol ac yn y maes chwarae. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyson o ansawdd uchel i sicrhau datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol system glir a diffiniedig ar gyfer nodi disgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae aelodau staff yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn rhoi rhaglen gynhwysfawr o strategaethau ymyrraeth hynod effeithiol ar waith y maent yn ei monitro'n drylwyr. Mae'r ysgol hefyd yn datblygu gallu'r staff i ddarparu cymorth cynlluniedig a thargedig sy'n ymateb yn effeithiol i

anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Mae hon yn nodwedd ragorol yn yr ysgol. Mae athrawon yn cynnwys rhieni a disgyblion yn y broses o osod ac adolygu cynlluniau addysgol unigol. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth da iawn i grwpiau ac unigolion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod o asiantaethau allanol arbenigol fel y seicolegydd addysg a'r gwasanaeth lleferydd ac iaith sy'n darparu cymorth ac arweiniad helaeth ar gyfer disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol y Dolau yn ysgol hapus, sydd ag ethos eithriadol o ofalgar a chynhwysol. Mae aelodau staff wedi datblygu polisïau ac arferion yn llwyddiannus dros gyfnod, sy'n rhoi cyfle teg iddynt ddatblygu eu hunain yn academaidd ac yn gymdeithasol, beth bynnag fo'u cefndiroedd. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd bywiog a chyffrous sy'n cefnogi disgyblion yn dda i fod yn ddysgwyr hyderus a llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gosod pwyslais eithriadol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, a pharch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos synnwyr cryf iawn o aeddfedrwydd, gan ddangos awydd i helpu ei gilydd a'r rhai sy'n byw yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach.

Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol yn nodwedd ragorol. Mae aelodau staff yn cynnal yr adeiladau a'r ardal gyfagos yn dda. Maent yn lân, deniadol, ysgogol ac yn destun balchder i'r disgyblion a'r staff. Mae'r ysgol wedi datblygu'r ardaloedd allanol yn llwyddiannus dros gyfnod i ddarparu mannau dysgu anturus ac ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae aelodau o staff yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn helaeth i ddarparu cyfleoedd cynaledig o ansawdd uchel er mwyn i ddysgu fod yn ddeniadol a chyffrous i ddisgyblion. Mae'r ardd synhwyraidd, a grëwyd gan y disgyblion, y staff ac aelodau o'r gymuned, yn cynnig man heddychlon ar gyfer myfyrio tawel. Mae'n ardal ddysgu sy'n gwella'r golwg, sydd hefyd yn galluogi disgyblion i adnabod ac astudio planhigion a math arall o fywyd gwyllt.

Mae'r ysgol wedi creu ystafelloedd dosbarth a choridorau sy'n fywiog ac yn llawn lliw, sy'n gwella profiadau dysgu'n dda ar gyfer disgyblion. Mae disgyblion yn falch iawn o'u hamgylchedd ac yn dangos parch mawr tuag ato. Mae paneli solar newydd yn darparu ynni ac yn gwneud arbedion sylweddol i filiau ynni, sy'n cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwy. Mae'r cyfleusterau, sy'n cynnwys campfa, pwll nofio, a chegin, o fantais fawr i ddisgyblion, athrawon a grwpiau o'r ardal leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar les a safonau disgyblion, ac yn cynorthwyo staff i fodloni'r targedau uchelgeisiol y mae

wedi eu gosod. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel, mae i'w weld yn amlwg iawn o gwmpas yr ysgol, ac mae ganddo wybodaeth dda am y safonau addysgu a dysgu. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn cyfrannu'n effeithiol at weledigaeth ar y cyd yr ysgol, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth wedi sefydlu strwythur rheoli ac arwain cadarn â thair haen iddo. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i arweinwyr dibrofiad arwain mentrau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm pan fydd uwch aelodau staff yn cael dyrchafiad i swyddi eraill mewn gwahanol ysgolion. Mae'r fframwaith arwain hwn, sydd wedi'i drefnu'n dda iawn, yn datblygu arweinwyr y dyfodol yn llwyddiannus.

Mae cyfarfodydd staff yn cynnwys ffocws clir ar safonau disgyblion, blaenoriaethau'r ysgol, a mentrau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn dadansoddi data yn dda ac yn rhannu deilliannau'n effeithiol gyda phob un o'r staff i sicrhau bod tanberfformiad yn cael ei herio'n gyson. Dros gyfnod, mae arweinwyr yr ysgol wedi llwyddo i godi safonau mewn Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â gwella cyrhaeddiad bechgyn, a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn ddiweddar, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd ar draws pob pwnc yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus iawn am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i osod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella. Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn herio'r pennaeth yn effeithiol pan fo'n briodol gwneud hynny. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac mae hyn yn rhoi trosolwg priodol iddynt o gryfderau'r ysgol ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw manwl i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n fanwl ar ddatblygu disgyblion fel dysgwyr annibynnol, medrau Cymraeg disgyblion yn yr adran Saesneg a darparu ardaloedd dysgu cyffrous y tu allan. Caiff y mentrau hyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu, profiadau a safonau lles disgyblion. Mae systemau rheoli perfformiad yn briodol ac yn annog athrawon a chynorthwywyr addysgu i herio'u perfformiad eu hunain a chymryd rhan weithredol mewn cynllunio ar gyfer eu datblygiad proffesiynol personol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi sefydlu strwythur gonest, dadansoddol a chadarn ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r systemau datblygedig hyn yn llwyddo i gynnwys cyfraniadau rheolaidd gan bob aelod o staff. Mae'r rhain wedi bod yn ffactorau allweddol o ran ysgogi gwelliant parhaus mewn safonau, lles disgyblion, a'u presenoldeb.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i fonitro ac arfarnu perfformiad ac mae'n casglu barn disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol. Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi'r canlyniadau ar y cyd ac yn ystyried deilliannau yn ofalus wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae dadansoddi data yn drylwyr, arsylwadau gwersi a thrafodaethau gyda disgyblion, yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud yn dda, a'r hyn y mae angen ei wella.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro perfformiad yn llywio ei chynllun strategol ar gyfer gwella yn uniongyrchol. Mae defnydd cynhwysfawr yr ysgol o ddata

perfformiad i lywio hunanarfarnu a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn nodwedd gref. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sydd â ffocws clir, sy'n cynnwys targedau heriol ar gyfer gwella, dyraniad addas o ran adnoddau a chyllid yn ogystal â meini prawf llwyddiant priodol. Mae gan bob aelod o'r uwch dîm rheoli gyfrifoldebau dirprwyedig ar gyfer gwella o fewn cynllun datblygu'r ysgol. Maent yn sefydlu cynlluniau gwella unigol i fonitro ac arfarnu mentrau a chamau gweithredu penodol. Mae'r trefniant monitro trylwyr hwn yn sicrhau bod gan bob aelod o staff berchnogaeth glir o ran cynllunio ar gyfer gwella, ac maent yn gweithredu hyn yn ddiwyd. Mae hyn wedi arwain at welliannau nodedig mewn safonau llythrennedd a Chymraeg ail iaith ar draws yr ysgol, yn ogystal â phresenoldeb ac agweddau ar ddysgu annibynnol ac asesu ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n briodol at y broses hunanarfarnu trwy ymweld yn rheolaidd â'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ddata perfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, ni chaiff deilliannau ymweliadau â'r ysgol eu rhannu'n ffurfiol â'r corff llywodraethol llawn bob amser.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol lawer o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae aelodau o staff yn ymgysylltu'n dda â rhieni i sicrhau eu cymorth. Mae rhieni'n werthfawrogol iawn o lefel uchel y gofal a roddir i'w plant. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon weithgar wedi codi symiau sylweddol o arian i wella'r cyfleusterau dysgu yn yr awyr agored. Mae llawer o rieni'n mynychu gweithdai cwricwlaidd yn yr ysgol i'w helpu i gynorthwyo eu plant gartref. Caiff y rhain effaith fesuradwy ar godi safonau cyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwella'i chwricwlwm trwy ystod dda o bartneriaethau â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae aelodau o'r gymuned wedi helpu'r ysgol i dirlunio gerddi ac ardaloedd chwarae'r ysgol. Mae hyn yn cymell disgyblion i ofalu am eu hamgylchedd yn yr ysgol yn dda ac yn cyfoethogi eu profiadau dysgu yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol fel seremoni Diwrnod y Cofio. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion yn dda.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos â'r cylchoedd chwarae lleol ac mae trefniadau pontio yn sicrhau bod y disgyblion iau yn ymgynefino'n gyflym a hapus yn y dosbarth meithrin. Mae trefniadau pontio sefydledig â'r ysgolion cyfun lleol yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn hyderus i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion yn y clwstwr a thu hwnt i rannu gweithgareddau hyfforddi staff ac arfer dda fel rhoi rhaglen fathemateg strwythuredig ar waith. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus hefyd i safoni gwaith disgyblion a sicrhau cywirdeb eu hasesiadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer addas o athrawon cymwys, y mae'n eu defnyddio'n effeithiol i wneud y gorau o'u gwybodaeth a'u medrau. Mae athrawon yn gweithio'n dda fel tîm i rannu arfer dda, adnoddau a helpu i ddatblygu medrau ei gilydd i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle cyfartal i ddysgu. Mae tîm medrus a brwdfrydig o

gynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth effeithiol iawn ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu a'u lles. Mae rheolwyr yr ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i athrawon gynllunio, paratoi a chofnodi asesiadau.

Mae dull ysgol gyfan o ran datblygiad proffesiynol a hyfforddiant yn sicrhau dealltwriaeth ar y cyd a dull cyson a chefnogol ar gyfer mentrau newydd ymhlith y staff. Mae'r ysgol yn amgylchedd dysgu golau ac ysgogol, lle mae aelodau o staff yn defnyddio ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel yn dda i gefnogi datblygiad disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yn effeithlon, gan sicrhau bod yr ysgol yn cynnwys adnoddau da. Mae arweinwyr yr ysgol yn pennu costau cynllun gwella'r ysgol yn gywir ac yn monitro gwariant yn ofalus i sicrhau eu bod yn bodloni blaenoriaethau'n briodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi datblygiad emosiynol ac addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

O ganlyniad i'r safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6742083 - DOLAU PRIMARY**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 452 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 55 | 42 | 60 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.3 | 90.5 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 25 | 31 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.7 | 96.0 | 83.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 24.1 | 16.0 | 29.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 17 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.8 | 17.6 | 34.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 55 | 42 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.9 | 97.6 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.3 | 31.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 55 | 42 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 98.2 | 95.2 | 98.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 41.8 | 33.3 | 51.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6742083 - DOLAU PRIMARY**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 452 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 49 | 39 | 41 | 46 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 81.6 | 89.7 | 82.9 | 89.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 49 | 39 | 41 | 46 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 92.3 | 90.2 | 89.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.4 | 33.3 | 39.0 | 39.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 25 | 15 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.5 | 92.0 | 100.0 | 87.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 19.2 | 28.0 | 40.0 | 34.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 49 | 39 | 41 | 46 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.8 | 97.4 | 87.8 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.4 | 43.6 | 39.0 | 45.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 49 | 39 | 41 | 46 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.9 | 94.9 | 95.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.4 | 28.2 | 43.9 | 41.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 101<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 104 | 93<br>89%<br>92% | 11<br>11%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 104 | 101<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 104 | 103<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 104 | 104<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 104 | 100<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 104 | 104<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 104 | 102<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 104 | 101<br>97%<br>91% | 3<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 104 | 103<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 104 | 78<br>75%<br>77% | 26<br>25%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 104 | 88<br>85%<br>84% | 16<br>15%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 54 | 43 | 11 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 55 | 48 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 55 | 46 | 8 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 84% | 15% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 55 | 40 | 14 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 73% | 25% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 54 | 31 | 22 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 57% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 55 | 41 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu'n dda. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 55 | 43 | 11 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 78% | 20% | 2% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 54 | 29 | 24 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 54% | 44% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 54 | 37 | 16 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 69% | 30% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 55 | 40 | 15 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 54 | 44 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 43 | 31 | 10 | 2 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 23% | 5% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 54 | 32 | 20 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 59% | 37% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 53 | 37<br>70% | 12<br>23% | 3<br>6% | 1<br>2% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 52 | 27<br>52% | 23<br>44% | 1<br>2% | 1<br>2% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 56 | 37<br>66% | 19<br>34% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 38 | 23<br>61% | 13<br>34% | 2<br>5% | 0<br>0% | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 56 | 36<br>64% | 19<br>34% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 56 | 43<br>77% | 11<br>20% | 2<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Eurig Towns | Arolygydd Tîm |
| Sioned Thomas | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rhian James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.